Chwarae Cymru Play Wales



# Rhestr ddarllen ar gyfer athrawon

## Cefnogi chwarae plant mewn ysgolion

www.chwarae.cymru

Mae ysgolion yn fannau pwysig ar gyfer chwarae. Mae plant yn dweud bod amserau chwarae yn rhan bwysig o'r diwrnod ysgol. Mae amserau chwarae ac egwyl yn cynnig amser i blant ymlacio, rhedeg o gwmpas, chwarae a bod gyda'u ffrindiau. Mae astudiaethau wedi dangos bod prosiectau amserau chwarae yn yr ysgol sy'n anelu i ddarparu cyfleoedd chwarae cyfoethocach i blant yn arwain at lu o welliannau i blant o ran eu:

- perfformiad academaidd
- agweddau
- talu sylw
- ymddygiad
- sgiliau cymdeithasol
- perthnasau rhwng gwahanol grwpiau o blant
- mwynhad o a'u gallu i gyfaddasu i fywyd ysgol.

Mae'n bwysig i blant gael cyfleoedd i fod yn chwareus yn yr ysgol y tu allan i amserau chwarae. Dylai gweithgareddau chwareus fod yn ganolog i ddysgu – i blant hŷn yn ogystal â phlant yn y blynyddoedd cynnar.

Mae gan Chwarae Cymru gasgliad eang o adnoddau defnyddiol i gefnogi chwarae ar draws y diwrnod ysgol, sydd ar gael ar: www.chwarae.cymru/llyfrgell-adnoddau

## *Cylchgrawn Chwarae dros Gymru* – y rhifyn chwarae mewn ysgolion




Mae rhifyn gwanwyn 2019 cylchgrawn *Chwarae dros Gymru* yn amlygu rôl bwysig ysgolion wrth gefnogi a darparu'r mannau a'r cyfleoedd safon gorau posibl ar gyfer chwarae. Mae'n cynnwys rhai erthyglau sy'n edrych ar bolisi, fel cyd-gysylltu addysg a'r hawl i chwarae, mae'n cynnwys enghreifftiau o agweddau amgen yng Nghymru ac mae'n cynnwys erthygl a ysgrifennwyd gan athrawes ysgol gynradd am ddefnyddio deunyddiau chwarae rhannau rhydd er mwyn annog dysg a arweinir gan y plentyn.

### Pwyntiau myfyrio

Mae'r erthygl cylchgrawn 'Hawliau chwarae ac addysg: creu cysylltiadau' yn cyflwyno Sylw Cyffredinol rhif 17, a gyhoeddwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r pwyllgor yn mynnu bod ysgolion yn chwarae rhan wrth fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n ymwneud â chyflawni'r hawl i chwarae ac mae'n pwysleisio y dylai strwythur y diwrnod ysgol ganiatáu digon o amser i chwarae.

I ba raddau mae eich ysgol chi'n sicrhau bod amser chwarae'r plant yn cael ei warchod a ddim yn cael ei dynnu'n ôl? Beth allwch chi ei wneud i warchod amser chwarae ar gyfer pob plentyn?

Pa arsylwadau fyddwch chi'n eu gwneud am sut, ble a phryd y bydd plant yn chwarae a beth mae hyn yn ei ddweud wrthych am eu hanghenion a'u dewisiadau chwarae?

## *Ysgol chwarae-gyfeillgar – Canllaw ar gyfer agwedd ysgol gyfan*




Mae'r canllaw hwn, sydd wedi ei gymeradwyo gan Ganolfan Gyfreithiol y Plant Cymru a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth (NCPHWR), wedi ei ddylunio i gyfoethogi'r gwaith da sy'n cael ei wneud eisoes i ddarparu cyfleoedd chwarae da mewn ysgolion. Mae'r canllaw, a ddatblygwyd i ymateb i adroddiad Estyn *Iach a hapus - Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion* sy'n nodi pwysigrwydd amserau chwarae ac egwyl yr ysgol, yn darparu gwybodaeth berthnasol i bolisi ac arfer er mwyn helpu cymunedau ysgolion i fabwysiadu agwedd ysgol gyfan tuag at gefnogi hawl plant i chwarae.


**Pwyntiau myfyrio**

Mae un o'r pwyntiau yn yr adran '15 cam i ysgol chwarae-gyfeillgar' o'r canllaw yn cynghori y dylai'r ysgol enwebu llysgennad chwarae. Pwy ar eich tîm staff fyddai'n gweddu orau i'r rôl yma a pham?

Mae'r canllaw yn argymell o leiaf 60 munud o amser chwarae yn ystod y diwrnod ysgol. Sut ellir sicrhau hyn?

Mae'r canllaw hefyd yn siarad am ymgysylltu â rhieni. Sut gallai rheini helpu neu atal cynlluniau i gyfoethogi amserau chwarae?

## *Adnoddau ar gyfer chwarae – darparu rhannau rhydd i gefnogi chwarae plant* – pecyn cymorth




Gydag enghreifftiau o leoliadau ledled Cymru, mae'r pecyn cymorth hwn yn arddangos sut y mae darparu deunyddiau chwarae rhannau rhydd yn cynnig cyfleoedd di-ben-draw ar gyfer dysgu a chreadigedd ac yn helpu plant i ehangu eu chwarae a'u dysg eu hunain. Mae wedi ei ddatblygu i gefnogi oedolion yn y sectorau chwarae, y blynyddoedd cynnar ac addysg i ddarparu chwarae rhannau rhydd yn eu lleoliadau.

'*Adnoddau ar gyfer chwarae* … mae'n gwneud beth mae'r teitl yn ei ddweud – canllaw hawdd i'w ddilyn i roi cychwyn ar chwarae rhannau rhydd y gallwch chi wedyn ei dyfu'n adnodd maes chwarae cynaliadwy, rhad ac am ddim neu rad iawn fydd yn bywiogi ac yn sbarduno brwdfrydedd y plant i fwynhau chwarae mwy dychmygol a chydweithredol.'

**Helen Borley, Pennaeth Ysgol Gynradd Mount Stuart, Caerdydd**

### Pwyntiau myfyrio

Meddwl am gyflwyno rhannau rhydd, neu ddefnyddio mwy arnynt yn yr ysgol, beth yw'r cyfleoedd? Beth yw'r heriau? Sut allech chi fynd ati i ganfod mwy o rannau rhydd amrywiol?

Pa rannau o'r pecyn cymorth allech chi eu defnyddio i fynd i'r afael â rhai o'r cyfleoedd a'r heriau hyn?

---

## *Gweithdy hawl i chwarae*





Wedi ei ddylunio ar gyfer ei hwyluso mewn ysgolion i gynyddu ymwybyddiaeth plant am eu hawl i chwarae, mae'r pecyn *Gweithdy hawl i chwarae* yn cynnwys cynllun gweithdy, yn ogystal â deunyddiau ac adnoddau ategol. Mae wedi ei ddatblygu i gefnogi hyrwyddo, cyfranogi ac eiriol dros yr hawl i chwarae'n lleol ac i gefnogi plant i dyfu'n eiriolwyr dros chwarae.

### Pwyntiau myfyrio

Sut allwch chi a'ch disgyblion ehangu ar y gweithdy yn ystod amser addysgu er mwyn helpu'r plant i eiriol dros gyfleoedd chwarae gwell?

Sut allai'r plant gymryd yr awenau ar wella cyfleoedd ar gyfer chwarae yn yr ysgol?

## *Ffocws ar chwarae* – Cefnogi'r hawl i chwarae mewn ysgolion


Chwarae Cymru Play Wales

Ffocws ar chwarae

Cefnogi'r hawl i chwarae mewn ysgolion

Mae'r papur briffio hwn yn darparu gwybodaeth ac arweiniad ar gyfer penaethiaid, athrawon a llywodraethwyr ysgolion. Mae'n ystyried rôl allweddol chwarae plant wrth hybu iechyd meddwl positif ac mae'n trafod ffyrdd y gall ysgolion hyrwyddo chwarae.

Yr hawl i chwarae

Mae Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn datgan bod gan blant hawl i gael chwarae, gorffwys a hamdden. Gyda'r ansicrwydd a achoswyd gan y pandemig COVID-19 ac achosion straen eraill, fel pryderon costau byw a rhyfela, mae cyfleoedd i chwarae'n hanfodol er mwyn helpu plant i wneud synnwyr o'u profiadau, datrys problemau, ailgysylltu gyda'u cyfoedion, a hybu eu lles eu hunain.

Er mwyn pwysleisio pwysigrwydd chwarae, cyhoeddodd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn Sylw Cyffredinol rhif 17[1]. Mae hwn yn amlinellu sut y mae chwarae'n darparu ffordd i blant allanoli profiadau bywyd anodd, cythryblus neu drawmatig ac mae'n cynnig arweiniad penodol i ysgolion ar sut y gellid cyflawni hyn.

Chwarae a lles

Chwarae yw'r ffordd fwyaf naturiol a phleserus i blant gadw'n iach a bod yn hapus. Gall gyfrannu at well lles i bawb yn ystod adegau o ansicrwydd a newid. Mae chwarae'n rhywbeth y bydd plant yn ei wneud pryd bynnag y maen nhw'n cael cyfle. Golygodd dyfodiad COVID-19, a'n hadferiad ar ei ôl, a materion eraill sy'n achosi straen, ein bod yn dal i ddelio gydag elfennau ansicr ac anhysbys yn gyflym iawn a gyda fawr ddim amser i baratoi. Yn ystod adegau o ansicrwydd, bydd chwarae yn:

- helpu i roi ymdeimlad o normalrwydd a llawenydd i blant yn ystod profiad o golled, unigrwydd a thrawma
- helpu plant i oresgyn poen emosiynol ac adennill rheolaeth o'u bywydau
- helpu plant i wneud synnwyr o'r hyn sydd wedi digwydd iddyn nhw, a'u galluogi i brofi hwyl a mwynhad
- cynnig cyfle i blant archwilio eu creadigedd eu hunain.

Creu amodau ar gyfer chwarae

Chwarae yw ffordd plant o gefnogi eu hiechyd a'u lles eu hunain. Bydd plant yn dod o hyd i gyfleoedd i chwarae, hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf

Am Chwarae Cymru

Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol dros chwarae plant. Rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch angen a hawl plant ac arddegwyr i chwarae ac i hyrwyddo arfer dda ar bob lefel o'r broses gwneud penderfyniadau ac ym mhobman lle gallai plant chwarae. Fe gydweithiom yn agos gyda Llywodraeth Cymru ar ei deddfwriaeth 'Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae' arloesol. Mae Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal.

1

Mae'r papur briffio hwn wedi ai anelu at benaethiaid, athrawon a llywodraethwyr ysgolion. Mae hefyd yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer pawb sy'n gyfrifol am ddarparu cyfleoedd i blant chwarae.

Mae'n egluro rôl allweddol chwarae plant wrth hybu iechyd meddwl positif, ac yn trafod ffyrdd y gall ysgolion hyrwyddo chwarae plant.

### Pwyntiau myfyrio

Ydi chwarae'n cael ei ystyried yn rhan o'r agwedd ysgol gyfan tuag at les?

Gyda phwy yng nghymuned eich ysgol allwch chi rannu'r papur briffio hwn er mwyn hyrwyddo chwarae?

## Pecyn cymorth *Access to play in situations of crisis*


Wedi ei gynhyrchu i gynorthwyo pobl a sefydliadau sy'n gweithio mewn sefyllfaoedd argyfwng fel eu bod yn gallu deall a chefnogi chwarae bob dydd plant yn well, bydd y pecyn cymorth hwn yn helpu ymarferwyr i ddeall gwerth therapiwtig chwarae. Wedi ei ysgrifennu gan Chwarae Cymru ar gyfer yr International Play Association, mae'r cyhoeddiad yn cynnig man cychwyn defnyddiol ar gyfer cefnogi plant i leddfu staen bywyd.

## Pwyntiau myfyrio

Mae rhai plant yn byw mewn cartref gyda gardd, digonedd o ofod cymunedol awyr agored a gofalwyr cefnogol sydd ag amser i gefnogi chwarae, tra bod eraill heb hyn. Wrth feddwl am y plant yn eich dosbarth chi, beth ydych chi'n ei wybod am eu sefyllfa gartref a'u mynediad i gyfleoedd i chwarae y bydd angen ichi eu hystyried wrth ichi gynllunio i'w croesawu'n ôl yn raddol i'r ysgol.

Efallai y bydd ambell riant yn bryderus ynghylch cynnydd academaidd eu plentyn. Sut allwch chi eu helpu i ddeall bod rhaid blaenoriaethu chwarae er mwyn helpu i gefnogi lles eu plant?

Ydych chi'n credu bod chwarae'n hanfodol yn yr ysgol? Sut fyddwch chi'n rannu hyn gyda phobl eraill?




## Fideos *Elfennau hanfodol gwaith chwarae*

Mae'r fideos *Elfennau hanfodol gwaith chwarae* yn gyflwyniadau byr i agweddau o waith chwarae ac yn cynnwys dolenni i adnoddau pellach. Maent wedi eu hanelu at ddysgwyr gwaith chwarae, ac unrhyw un arall sy'n gweithio gyda phlant, hoffai ddysgu mwy am ddefnyddio agwedd gwaith chwarae.



## Pwyntiau myfyrio

Mae'r fideos yn darparu trosolwg cryno o agweddau o arfer gwaith chwarae. Beth yw'r oblygiadau ar eich cyfer chi mewn lleoliad ysgol? Allwch chi feddwl am ffyrdd i wreiddio elfennau o agwedd gwaith chwarae yn eich gwaith chi?

## Ar gyfer rhieni a gofalwyr ...

### *Plentyndod Chwareus*

Gwefan sy'n llawn syniadau chwareus hawdd a hwyliog i blant eu mwynhau – o adeiladu cuddfannau i beintio poitshlyd, neidio mewn pyllau neu chwarae cuddio.

Plentyndod Chwareus

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer magu plant yn chwareus ac ymuno yn chwarae'r plant.

### *IPA Play in Crisis: support for parents and carers*

Adnodd sy'n rhoi gwybodaeth a syniadau i rieni i gefnogi chwarae plant. Mae'r pynciau yn cynnwys pwysigrwydd chwarae mewn argyfwng a sut i ymateb i anghenion chwarae plant.

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen cofrestredig, rhif 1068926 © Chwarae Cymru

Ionawr 2024